# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brocastle Manor**

**Brocastle House**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 5AU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brocastle Manor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 80 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27.10.2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael gwasanaeth gan staff sy'n deall eu hanghenion. Mae'r cynlluniau personol yn glir ac yn llawn gwybodaeth, sy'n galluogi'r gweithwyr gofal i roi cymorth mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y bobl ac yn bodloni eu dewisiadau. Mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen o weithgareddau y mae'r bobl yn eu mwynhau. Mae cyfarpar diogelwch ar gael a chaiff atgyfeiriadau iechyd eu gwneud pan fo angen er mwyn hybu iechyd a llesiant y bobl. Mae croeso i deuluoedd, ffrindiau a chynrychiolwyr ymweld â'r gwasanaeth ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r tîm rheoli, y nyrsys a'r gweithwyr gofal.

Caiff y nyrsys a'r gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ond nid oedd y tystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y nyrsys a'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant craidd ac arbenigol priodol i gyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei gyflawni. Gan amlaf, mae niferoedd digonol o staff ar gael ac mae ganddynt gymysgedd o sgiliau i ddarparu cymorth digonol i'r bobl. Mae gan y darparwr raglen recriwtio staff barhaus ar waith. Mae Unigolyn Cyfrifol wedi'i benodi ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth, a chaiff adroddiadau rheoleiddiol eu cwblhau fel sy'n ofynnol ar yr amseroedd priodol.

Mae'r cartref yn ddiogel, yn lân ac yn daclus. Mae ardaloedd cymunedol ac ardaloedd personol ar gael i'r bobl. Mae'r lolfeydd a'r gerddi yn cynnig cyfleoedd i'r bobl gymdeithasu a mwynhau gweithgareddau gyda'i gilydd. Mae rhannau o'r cartref yn cael eu hailaddurno ar hyn o bryd.

## Llesiant

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn cael cymorth a chyfle i gynnal rheolaeth dros eu bywydau. Mae'r cynlluniau personol yn glir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae angen i'r staff sicrhau bod y gwelliannau a wnaed yn flaenorol i'r gwaith papur atodol a'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn gyson ac yn parhau. Caiff system cynllunio gofal electronig newydd ei chyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn. Mae datganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig ar gael ac maent yn amlinellu'r broses asesu a derbyn, natur y gwasanaeth a ddarperir, a sut i wneud cwyn. Mae'r tîm rheoli yn ymdrin â chwynion yn briodol.

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi gan y staff gofal i fod mor iach â phosibl. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau da ag aelodau sefydledig o staff sy'n helpu i gefnogi llesiant ac iechyd emosiynol y bobl. Mae gwasanaethau meddyg teulu ar gael i'r bobl. Trefnir apwyntiadau â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ar gyfer archwiliadau rheolaidd neu os bydd anghenion unigol yn newid. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol i drafod y bobl y mae eu hanghenion wedi newid. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith i ddiogelu'r bobl yn y gwasanaeth ac mae'r rhain yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth yng Nghymru. Mae gweithdrefnau da ar waith i recriwtio staff yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu gorfodol ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Caiff y gwasanaeth ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae trefniadau diogelwch ar waith ar gyfer dod i mewn ac allan o'r adeilad yn ddiogel. Mae tîm domestig yn gweithio yn y gwasanaeth, gan sicrhau ei fod yn lân a bod cyn lleied o risg o groesheintio â phosibl.

Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw i safon dda ac mae'n gyfforddus ac yn lân. Mae unedau'r llawr gwaelod wedi cael eu hailaddurno'n ddiweddar er mwyn sicrhau amgylchedd mwy ysgogol i bobl sy'n byw gyda dementia.  Mae cynlluniau ar waith i gynnal gwaith tebyg ar y llawr uchaf. Mae cyfarpar arbenigol ar gael i'r rheini sydd ei angen. Gall y bobl wneud dewisiadau mewn perthynas â'u hardaloedd byw personol drwy eu personoli fel y mynnont. Caiff diogelwch amgylcheddol ei reoli drwy raglen barhaus o waith cynnal a chadw, gwiriadau a threfniadau gwasanaethu.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau lle y bo'n bosibl. Mae tri chydgysylltydd gweithgareddau yn gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym nad oes ganddynt ddigon o amser i'w dreulio yn sgwrsio â'r bobl fel yr hoffent ei wneud. Gwelsom dystiolaeth fod y bobl yn mwynhau sesiynau cerddoriaeth, digwyddiadau arbennig a theithiau allan. Y diwrnod ar ôl yr arolygiad hwn, daeth alpacaod i ymweld â'r cartref. Mae'r darparwr yn ymwybodol nad yw gweithgareddau mewn grwpiau mawr yn addas i bawb yn y gwasanaeth ac mae gweithgareddau un i un mwy ystyrlon wrthi'n cael eu cynllunio. Pan ofynnwyd i'r bobl a'u perthnasau am y gweithgareddau, dywedwyd wrthym "*There's loads of them*", "*there's plenty going on*" ac "*It's nice to have an afternoon out*".

Mae'r gwasanaeth yn hybu iechyd a llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn nodi manylion o ran pwy yw'r bobl a sut maent yn hoffi cael eu cefnogi. Mae pob cynllun yn ymdrin â meysydd craidd gofal a chymorth yr unigolyn ac yn nodi sut y gall y staff ei gefnogi'n ddiogel, er enghraifft, cefnogi person sy'n wynebu risg o gwympo neu o gael niwed i'r croen. Mae adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau y caiff y bobl neu eu heiriolwyr eu cynnwys wrth adolygu'r cynlluniau. Mae'r cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol perthnasol yn cael eu cynnwys wrth ofalu am y bobl. Roedd yr adborth gan weithwyr iechyd proffesiynol yn cynnwys "*we have noticed an improvement generally day to day visits and paperwork*" ac "*I currently do not have any concerns*". Mae angen parhau â'r gwelliannau a wnaed yn ystod ein harolygiad diwethaf, gan gynnwys cwblhau'r ddogfennaeth atodol fel siartiau bwyd a hylifau a siartiau ail-leoli. Er mwyn ymdrin â hyn, mae'r gwasanaeth yn bwriadu dechrau defnyddio ffeiliau electronig, ac o ganlyniad, bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau cofnodion ar y pryd. Dywedodd y perthnasau wrthym "*The care is absolutely fantastic*" a "*Can't fault them, I think they are exceptional*".

Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond staff nyrsio awdurdodedig all gael gafael arnynt. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn rhoi meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr ac nid oedd unrhyw fylchau neu wallau. Maent yn helpu i reoli poen y bobl drwy gwblhau adnodd asesu a monitro effeithiolrwydd eu meddyginiaeth lleddfu poen. Caiff meddyginiaeth ei harchwilio'n rheolaidd, gydag archwiliad allanol ychwanegol yn cael ei gynnal gan fferyllfa leol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Gofal Brocastle Manor yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Gwelsom fod gan y preswylwyr eu hystafelloedd eu hunain sydd wedi'u personoli ag eitemau sy'n bwysig iddynt, fel ffotograffau a dodrefn. Mae nifer o ardaloedd cymunedol ar ddau lawr y gwasanaeth sy'n darparu digon o le i'r bobl ymgysylltu â'i gilydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chwrdd â pherthnasau a ffrindiau sy'n ymweld â nhw. Mae'r ardaloedd cymunedol hyn yn cynnwys 'Manor Tearoom' newydd ar y llawr gwaelod. Mae ardal safle bws wedi cael ei chreu â mainc i'r bobl eistedd arni. Mae gwelliannau amgylcheddol sylweddol wedi cael eu gwneud i'r unedau ar y llawr gwaelod ac mae cynlluniau ar waith i wneud y gwelliannau hyn ar y llawr uchaf hefyd. Mae'r coridorau yn y cartref yn llydan, yn olau ac yn ddirwystr gan ei gwneud hi'n hawdd i'r preswylwyr, y staff a'r ymwelwyr symud o amgylch. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob ardal gymunedol ac mewn ystafelloedd eraill, fel yr ystafelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd storio, yn nodi eu defnydd. ‘

Mae mesurau ar waith i hyrwyddo iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r cartref yn defnyddio system fob sy'n atal ymwelwyr rhag dod i mewn i'r safle heb awdurdod. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnod o'r ymwelwyr sy'n cyrraedd ac yn gadael yr adeilad. Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a gwaith cynnal a chadw'r gwasanaeth. Mae'r wybodaeth yn rhoi trosolwg manwl o raglen dreigl o wiriadau diogelwch, trefniadau gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw ar y cyfarpar a'r cyfleusterau. Mae gweithdrefnau tân effeithiol ac effeithlon ar waith, a chaiff profion a hyfforddiant eu cynnal i ddiogelu'r bobl. Roedd y cofnodion yn cadarnhau y caiff y larymau tân eu profi bob wythnos. Gwelsom fod cyfyngwyr wedi'u gosod ar y ffenestri er mwyn lleihau'r risg o gwympo o uchder. Mae system clychau galw yn galluogi'r bobl i alw am gymorth gan y staff. Gwelsom fod cemegau yn cael eu storio'n ddiogel.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan i leihau'r risg o groesheintio. Gwelsom y tîm domestig yn gweithio'n galed drwy gydol yr arolygiad. Roedd safonau glendid da ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae polisi rheoli heintiau ar waith sy'n adlewyrchu'r canllawiau presennol. Cynhaliodd adran iechyd yr amgylchedd arolygiad yn ddiweddar, a rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gegin, sy'n awgrymu bod safonau'r gwasanaeth yn dda iawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n ymddangos yn wybodus, ond mae angen iddynt gael hyfforddiant mwy rheolaidd. Mae'r trafodaethau a gafwyd â'r staff yn dangos eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddiogelu ac y byddent yn codi unrhyw bryderon â'r tîm rheoli. Ar y cyfan, mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r polisïau allweddol a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ymgymryd â'u dyletswyddau. Fodd bynnag, nid oedd y matrics hyfforddiant a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd diogel. Mae hyn yn faes i'w wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi darparwr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau wrth benodi staff. Mae'r tîm adnoddau dynol wedi cadarnhau bod pob aelod newydd o'r staff yn destun proses fetio drylwyr sy'n bodloni gofynion rheoleiddiol. Mae aelodau newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu. Caiff y staff gofal eu cefnogi i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n ofynnol i aelodau newydd o staff gwblhau cyfnod sefydlu strwythuredig a chânt gyfleoedd i gysgodi aelodau profiadol o'r tîm er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r gwasanaeth a'r bobl sy'n byw yno. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael sesiwn goruchwylio ffurfiol yn ystod y tri mis diwethaf a chaiff cyfarfodydd tîm eu cynnal er mwyn rhoi gwybodaeth i'r staff a'u diweddaru.

Mae tîm rheoli sefydledig ar waith. Mae'n cynnwys rheolwr, dirprwy reolwr a dau arweinydd clinigol. Nid oedd rhai o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau, gan ddweud wrthym nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod morâl yn y cartref yn isel. Roedd adborth arall yn cynnwys "*I love my job*" ac "*I love my residents, it's what keeps me here*". Roedd y lefelau staffio yn is na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwrnod ein harolygiad o ganlyniad i salwch munud olaf Mae'r darparwr yn cydnabod nad yw cynnydd yn y defnydd o staff asiantaeth yn ddelfrydol, ac felly mae'n bwrw ati i geisio recriwtio aelodau parhaol o staff. Dywedodd y staff cyfredol wrthym fod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol ar aelodau newydd o staff, sy'n rhoi pwysau ychwanegol arnynt. Roedd yr amgylchedd yn brysur ar adegau, ond mae anghenion gofal sylfaenol y bobl yn cael eu diwallu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn aml yn brysur ac yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro. Gwelsom amrywiadau o ran y lefelau ymgysylltu ac ysgogi yr oedd y bobl yn eu cael. Cawsom wybod bod y tîm rheoli yn bwriadu ymdrin ag unrhyw faterion cyfredol ac yn cynyddu'r lefelau staffio yn y boreau.

Mae gweledigaeth, gwerthoedd a diben y gwasanaeth yn glir ac yn amlwg yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau sicrhau ansawdd â'r gwasanaeth bob tri mis a phob chwe mis.  Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys siarad â'r bobl a'r gweithwyr cymorth er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Fel rhan o'r adolygiadau sicrhau ansawdd bob chwe mis, mae'n bwrw golwg manwl ar agweddau eraill

ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu megis asesiadau amgylcheddol, ac yn nodi'r meysydd i'w gwella a nodwyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r matrics hyfforddiant presennol yn cynnwys yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r gwasanaeth wedi sicrhau bod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio yn unol â'i ddatganiad o ddiben. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/12/2023